Shropshire County
NHS Primary Care Trust

NHS Telford and Wrekin

The Shrewsbury and Telford Hospital
NHS Trust

# Cadw gwasanaethau ysbyty yn Amwythig a Telford

## Ymgynghoriad cyhoeddus

Crynodeb yw hwn o ddogfen ymgynghori gyhoeddus ynglŷn ag argymhellion lleol y GIG i newid sut a ble y darperir rhai gwasanaethau ysbyty arbenigol. O dan yr argymhellion, byddai rhai gwasanaethau arbenigol yn symud o Ysbyty Brenhinol Amwythig i Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford, ac i'r gwrthwyneb. Pwrpas y newidiadau arfaethedig yw gofalu bod cleifion yn derbyn gofal diogel o ansawdd uchel ac y gall ein dau ysbyty barhau i wasanaethu pobl Sir Amwythig, Telford a Wrekin a Chanolbarth Cymru am amser hir i ddod.

## Os bydd y newidiadau arfaethedig yn digwydd, byddai'r rhan fwyaf o gleifion yn dal i fynd i'r un ysbyty ag y maent yn mynd iddo yn awr.

- Byddai gan y ddau ysbyty adran damweiniau ac achosion brys 24 awr.
- Byddai cleifion sydd angen triniaeth am goesau a breichiau wedi torri yn mynd i'r un ysbyty ag y maent yn mynd iddo yn awr.
- Byddai'r rhan fwyaf o gleifion allanol yn parhau i fynd i'r un ysbyty ag y maent yn mynd iddo yn awr.
- Byddai'r rhan fwyaf o gleifion sy'n cael llawdriniaeth dydd yn mynd i'r un ysbyty ag y maent yn mynd iddo ar hyn o bryd.
- Byddai achosion meddygol brys (fel trawiadau ar y galon a heintiau'r frest) yn mynd i'r un ysbyty ag y maent yn mynd iddo ar hyn o bryd.
- Byddai plant sydd ag anghenion brys yn cael eu hasesu fel ag y maent yn awr yn y ddau safle y rhan fwyaf o'r amser.
- Byddai pob gwraig sy'n cael ei baban mewn uned o dan arweiniad bydwraig yn mynd i'r un ysbyty ag y mae'n mynd iddo yn awr ar gyfer yr enedigaeth.
- Byddai pob gwraig yn derbyn ei gofal cyn geni fel claf allanol yn yr un ysbyty ag y mae'n ei dderbyn ar hyn o bryd.

# Mae angen i rai gwasanaethau arbenigol newid i'w hatal rhag symud allan o'n hardal ni.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae gwasanaethau ysbyty wedi dechrau gadael ein hardal, gan gynnwys rhai mathau o lawdriniaeth canser. Darperir y gwasanaethau hyn bellach o ysbytai eraill, oherwydd nid oedd yn bosibl i ni gynnal yr ansawdd cywir o driniaeth arbenigol yn lleol. Dymunwn atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol.

## 1. Cyflenwi'r gofal llawfeddygol gorau 24 awr y dydd.

Heddiw, mae'r rhan fwyaf o lawfeddygon yn cyflawni ystod lai o lawdriniaethau mwy cymhleth nag y byddai eu rhagflaenwyr wedi gwneud. Mae cleifion yn elwa oherwydd mae llawfeddygon sgilgar yn gynyddol yn gallu sicrhau gwell canlyniadau. Ond mae hyn yn golygu eu bod yn llai abl i weithio hyd at y safonau angenrheidiol mewn meysydd llawdriniaeth sydd y tu allan i'w maes arbenigol.

Mae hyn yn ei gwneud yn anodd trefnu gwasanaethau fel bod yr arbenigwyr iawn ar gael, pan fo eu hangen, i asesu a thrin cleifion sy'n cyrraedd yr ysbyty fel achosion brys ar unrhyw adeg o'r dydd neu nos.

I sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion, mae angen i ni newid sut y caiff llawdriniaeth ei threfnu ar draws y ddau ysbyty. Credwn mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy ganolbwyntio llawfeddygaeth frys a'r rhan fwyaf o lawfeddygaeth arbenigol i gleifion mewnol yn Ysbyty Brenhinol Amwythig.

O dan yr argymhellion hyn, byddai'r rhan fwyaf o lawdriniaethau sy'n achosion dydd yn parhau i gael eu cyflawni ble maent yn cael eu gwneud ar hyn o bryd, a byddai'r rhan fwyaf o apwyntiadau i gleifion allanol cyn ac ar ôl llawdriniaeth yn cael eu cynnal lle maent yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.

## 2. Gwella ansawdd gofal mamolaeth a ddarperir ar hyn o bryd mewn adeilad 40-mlwydd oed sy'n dirywio.

Mae'r adeilad mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Amwythig, a adeiladwyd ym 1969, mewn cyflwr gwael ac yn brin o le. Mae'r prinder lle yn golygu mai dim ond un theatr llawdriniaeth sydd ar gael i ymdrin ag achosion brys wrth esgor. Mae hyn yn bryder o ran diogelwch. Mae'r uned gofal dwys cyn-geni, a leolir yn yr adeilad mamolaeth hefyd, yn brin iawn o le.

Hyd yn oed os caiff arian ei wario ar yr adeilad, cyfyngir ei oes yn y dyfodol i rwng pump a deng mlynedd. Nid yw'r lle hwn yn ddigon da ar gyfer gofal mamolaeth yn yr unfed ganrif ar hugain. Ein cynnig ni yw symud yr uned mamolaeth o dan arweiniad ymgynghorwr a'r uned gofal dwys cyn-geni o Ysbyty Brenhinol Amwythig i Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, lle mae lle ar gael a lle gellid adeiladu cyfleusterau newydd hefyd. Byddai hyn yn costio amcangyfrif o £28 miliwn, sy'n fforddiadwy, tra mae'r amcangyfrif o gost ailadeiladu yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn £60 miliwn, nad yw'n fforddiadwy.

Byddai'r uned o dan arweiniad bydwragedd yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn aros yn y safle hwnnw, gyda gwell lle ar eu cyfer, a byddai gofal cyn-geni i gleifion allanol yn parhau i gael ei ddarparu yn yr ysbyty.

## 3. Darparu'r lefel briodol o ofal i blant mewn ysbyty.

Gyda llai o feddygon plant arbenigol ar gael yn genedlaethol, mae ein hymgynghorwyr pediatrig yn pryderu fwyfwy am staffio ein dwy uned plant bresennol gyda'r lefel briodol o feddygon.

Credant y bydd creu un uned i'r plant hynny y mae angen iddynt aros dros nos yn helpu i oresgyn hyn. Byddai unedau asesu plant yn dal i fodoli yn y ddau ysbyty.

O dan ein hargymhellion ni, lleolid yr uned i blant sy'n gleifion mewnol yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn y dyfodol. Nid yn unig mae mwy o le ar gael nag yn Ysbyty Brenhinol Amwythig, ond mae mwy o blant sy'n byw mewn ardaloedd o anghyfartaleddau iechyd neu rai gydag anghenion iechyd bregus wedi eu lleoli yn agosach at Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol. Mae ymchwil cenedlaethol yn dangos eu bod yn debygol o fod â mwy o angen am wasanaethau plant.

## 4. Gwasanaethau Wroleg

Mae wroleg yn cynnwys trin yr arennau, y bledren, y llwybr wrinol a'r brostad. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i benderfynu ym mha un o'n dau ysbyty y dylid canolbwyntio wroleg i gleifion mewnol yn y dyfodol. Gofynnir am farn pobl fel rhan o'r ymgynghoriad.

## 5. Gwasanaethau strôc

Dymunwn drafod patrwm lleol y gwasanaethau strôc, gan roi ystyriaeth i'r ffordd orau o gyflwyno technegau newydd a datblygu gwasanaethau yn unol â safonau modern. Gofynnir am farn pobl fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

# Gwasanaethau a fyddai'n cael eu darparu yn ein dau ysbyty cyffredinol o dan yr argymhellion:

## Ysbyty Brenhinol Amwythig

- Adran Damweiniau ac Achosion Brys 24-awr
- Gwasanaeth meddygol brys (er enghraifft, trawiadau ar y galon, heintiau difrifol ar y frest)
- Clinigau i gleifion allanol
- Gweithdrefnau achosion dydd
- Uned mamolaeth o dan arweiniad bydwraig
- Llawfeddygaeth orthopedig brys ac i gleifion mewnol
- Trawma mawr (fel damweiniau traffig ar y ffyrdd)
- Uned asesu plant (nid dros nos)
- Llawfeddygaeth brys 24-awr
- Llawfeddygaeth fasgwlar frys ac wedi'i chynllunio i gleifion mewnol
- Llawfeddygaeth frys ac wedi'i chynllunio  i'r colon a'r rhefr i gleifion mewnol
- Llawfeddygaeth frys ac wedi'i chynllunio gastro-berfeddol uwch i gleifion mewnol

## Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford

- Adran Damweiniau ac Achosion Brys 24-awr
- Gwasanaeth meddygol brys (er enghraifft, trawiadau ar y galon, heintiau difrifol ar y frest)
- Clinigau i gleifion allanol
- Gweithdrefnau achosion dydd
- Uned mamolaeth o dan arweiniad bydwraig
- Llawfeddygaeth orthopedig frys ac i gleifion mewnol
- Uned plant i gleifion mewnol
- Uned asesu plant (24 awr)
- Uned mamolaeth o dan arweiniad ymgynghorydd
- Uned gyn-geni
- Gwasanaethau'r pen a'r gwddf i gleifion mewnol, gan gynnwys y glust, y trwyn a'r gwddf
- Gwasanaethau gynaecoleg i gleifion mewnol a gwasanaethau llawfeddygaeth y fron

## Sut y cafodd meddygon, nyrsys a chleifion lleol eu cynnwys

Mae meddygon arbenigol, nyrsys a swyddogion proffesiynol eraill sy'n ymwneud ag iechyd ac sy'n gyfrifol am gynnal y gwasanaethau dan sylw wedi helpu i ddatblygu'r argymhellion.

Mae rhai Meddygon Teulu o Swydd Amwythig, Telford a Wrekin a Chanolbarth Cymru wedi cael eu cynnwys hefyd yn y gwaith o edrych ar y ffordd orau o sicrhau ein bod yn cadw gwasanaethau arbenigol yn ein dau ysbyty cyffredinol.

Er na fydd pob meddyg unigol o anghenraid yn cytuno gyda phob agwedd o'r argymhellion, mae'n deg dweud bod consensws eang o farn feddygol leol o'u plaid.

Rhannwyd yr argymhellion hefyd gyda rhai cleifion a chynrychiolwyr cleifion o'r ardaloedd a wasanaethir gan ein dau ysbyty, a oedd yn gallu gofyn cwestiynau a mynegi eu barn.

Yn olaf, astudiwyd yr argymhellion yn fanwl iawn gan banel oedd yn cynnwys meddygon ac arbenigwyr eraill o'r tu mewn a'r tu allan i'r ardal.

Mae'r argymhellion yn adlewyrchu beth mae'r meddygon sy'n darparu'r gwasanaethau, a'r meddygon teulu sy'n anfon eu cleifion i'w defnyddio yn meddwl y dylid ei wneud i wella diogelwch ac ansawdd, a gofalu y darperir y gwasanaethau hyn o fewn Swydd Amwythig, Telford a Wrekin am amser maith i ddod.  Nid ydynt, yn bendant, wedi eu hanelu at arbed arian nac at gwtogi ar wasanaethau.

## Teithio a thrafnidiaeth i gleifion, gofalwyr ac ymwelwyr: rhai syniadau i'w trafod

Er, y byddai mwyafrif y cleifion yn dal i fynd i'r un ysbyty ag y maent yn mynd iddo ar hyn o bryd ar ôl y  newidiadau yr ydym yn eu hargymell, byddai angen i rai ohonynt deithio i ysbyty gwahanol sydd ymhellach i ffwrdd o'r lle maent yn byw.

Er bod nifer y rhai a effeithir yn debygol o fod yn gymharol fach mewn perthynas â chyfanswm nifer y cleifion a welir gan y ddau ysbyty bob blwyddyn, byddai angen i ni edrych ar ffyrdd o leihau'r anhwylustod iddynt ac ymdrin ag unrhyw risgiau posibl i bobl a fyddai'n teithio'n bellach mewn argyfwng.

Mae rhai o'r syniadau a gyflwynwyd hyd yma – yr ymchwilir iddynt i gyd ymhellach – yn cynnwys:

- Gwasanaeth bws wennol rhwng safleoedd y ddau ysbyty i gleifion, ymwelwyr a staff
- Defnyddio telefeddygaeth a thechnoleg i helpu cleifion mewn un ysbyty i gael ymgynghoriadau â meddygon mewn un arall
- Trafodaethau gyda'n hawdurdodau lleol am welliannau posibl mewn trafnidiaeth gyhoeddus
- Sicrhau'r amserau ymateb cyflymaf posibl i alwadau 999 gan yr ambiwlans mewn argyfyngau
- Ymchwilio a fyddai'n bosib cynnal ambiwlans hofrennydd  yn ystod y nos
- Sicrhau mewn argyfyngau bod plant yn cael eu cludo i'r ysbyty sydd yn gallu ymdrin â nhw orau yn ddiogel, yn arbennig yn y nos
- Ysbyty Brenhinol Amwythig i fod â mynediad at arbenigwyr plant 'ar alwad' 24 awr y dydd

# Ymgynghoriad cyhoeddus

Cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn o 9 Rhagfyr 2010 i 14 Mawrth 2011. Yn ystod yr amser hwnnw hoffem glywed barn cymaint o bobl â phosibl am ein hargymhellion.

## 1. A fyddech cystal ag anfon eich sylwadau atom erbyn 14 Mawrth 2011

- Cwblhewch y ffurflen adborth ar dudalennau 7, 8 ac 9 a'i dychwelyd at:

  FREEPOST RRZR-SZAA-BUBZ, Reconfiguration of Hospital Services, Oak Lodge, William Farr House, Shropshire County NHS PCT, Mytton Oak Road, Shrewsbury SY3 8XL

- Ysgrifennwch lythyr yn nodi eich sylwadau at:

  FREEPOST RRZR-SZAA-BUBZ, Reconfiguration of Hospital Services, Oak Lodge, William Farr House, Shropshire County NHS PCT, Mytton Oak Road, Shrewsbury SY3 8XL

- E-bostiwch eich barn at: ournhsinsat@nhs.net

## 2. Dweud eich dweud mewn cyfarfodydd ymgynghori

Yn ystod yr ymgynghoriad hwn cynhelir nifer o gyfarfodydd cyhoeddus agored fel y gallwch ganfod mwy, gofyn cwestiynau a lleisio eich barn. Bydd manylion llawn ar y gwefannau canlynol ac yn cael eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol:

www.shropshire.nhs.uk www.telford.nhs.uk

www.sath.nhs.uk www.ournhsinshropshireandtelford.nhs.uk

## 3. Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r ymgynghori ddirwyn i ben?

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn dod i ben ar 14 Mawrth 2011. Wedi hynny, bydd yr holl ymatebion rydym wedi eu derbyn, yn ysgrifenedig ac yn deillio o sylwadau mewn cyfarfodydd cyhoeddus, yn cael eu dadansoddi. Bydd adroddiad ar y dadansoddiad, y gallwch ei gael drwy ffonio 01952 580478 neu 0800 032 1107 neu drwy anfon e-bost atom yn ournhsinsat@nhs.net, yn cael ei gynnwys mewn papurau i'w cyflwyno i fyrddau ein tri sefydliad:

* Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol GIG Sir Amwythig
* GIG Telford a Wrekin
* Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford.

Cynhelir cyfarfodydd pob un o'r tri bwrdd yn gyhoeddus ym Mawrth 2011. Postir y dyddiadau ar y gwefannau a restrir ar y dudalen hon a byddant hefyd yn ymddangos mewn cyfryngau newyddion lleol.

Bydd y byrddau yn penderfynu, yng ngoleuni canlyniad yr ymgynghoriad hwn, a fydd yr argymhellion yn mynd ymlaen a pha mor bell i fynd gyda nhw.

Os bydd y byrddau yn cytuno i symud ymlaen, disgwylir y gallai rhai newidiadau ddechrau yn ystod gwanwyn 2011 a byddai'r holl newidiadau yn cael eu gweithredu erbyn 2014.

Ni fyddai'r holl newidiadau o anghenraid yn digwydd yr un pryd nac ar yr un cyflymder. Byddai angen cynllunio gofalus iawn. Byddai diogelwch y cleifion yn brif flaenoriaeth yn ystod pob cam o'r broses.

# Ffurflen adborth y gallwch ei llenwi a'i hanfon atom gyda'ch barn ynglŷn â'n hargymhellion

Wrth ddadansoddi beth mae pobl yn ei feddwl, byddai'n ddefnyddiol i ni pe gallech ymateb i'r cwestiynau canlynol. Ond os oes unrhyw faterion eraill yr hoffech roi sylw arnynt, rhowch eich barn i ni am y rhain hefyd.

## 1. Beth yw eich barn am ein hargymhellion cyffredinol ar gyfer gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol? (Rhowch gylch fel bo'n briodol)

Cefnogi'n gryf Cefnogi Dim barn Yn erbyn Yn gryf yn erbyn

## 2. GWASANAETHAU PLANT

**2a. Beth yw eich barn am ein hargymhellion penodol ar gyfer gwasanaethau plant fel cleifion mewnol? (Rhowch gylch fel bo'n briodol)**

Cefnogi'n gryf Cefnogi Dim barn Yn erbyn Yn gryf yn erbyn

**2b. Beth ydych chi'n ei hoffi am ein hargymhellion penodol ar gyfer gwasanaethau plant fel cleifion mewnol?**

**2c. Beth, os unrhyw beth, sy'n eich poeni am ein hargymhellion penodol ar gyfer gwasanaethau plant fel cleifion mewnol?**

**2d. Beth fyddai'n eich cysuro ynglŷn ag unrhyw bryderon a all fod gennych?**

## 3. GWASANAETHAU MAMOLAETH

**3a. Beth yw eich barn am ein hargymhellion penodol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth? (Rhowch gylch fel bo'n briodol)**

Cefnogi'n gryf Cefnogi Dim barn Yn erbyn Yn gryf yn erbyn

**3b. Beth ydych chi'n ei hoffi am ein hargymhellion penodol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth?**

**3c. Beth, os unrhyw beth, sy'n eich poeni am ein hargymhellion ar gyfer gwasanaethau mamolaeth?**

**3d. Beth fyddai'n eich cysuro ynglŷn ag unrhyw bryderon a all fod gennych?**

## 4. LLAWFEDDYGAETH

**4a. Beth yw eich barn am ein hargymhellion penodol ar gyfer llawfeddygaeth? (Rhowch gylch fel bo'n briodol)**

Cefnogi'n gryf Cefnogi Dim barn Yn erbyn Yn gryf yn erbyn

**4b. Beth ydych chi'n ei hoffi am ein hargymhellion ar gyfer llawfeddygaeth?**

**4c. Beth, os unrhyw beth, sy'n eich poeni chi am ein hargymhellion ar gyfer llawfeddygaeth?**

**4d. Beth fyddai'n eich cysuro ynglŷn ag unrhyw bryderon a allai fod gennych?**

## 5. WROLEG A GWASANAETHAU STRÔC

**A oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud am leoliad wroleg neu am batrwm gwasanaethau strôc lleol yn y dyfodol?**

## 6. SYLWADAU ERAILL

**A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?**

## 7. AMDANOCH CHI

**Yn olaf, llenwch y manylion canlynol amdanoch chi eich hun os gwelwch yn dda. Ni fydd modd eich adnabod o unrhyw wybodaeth a roddwch inni. Rhowch wybod i ni pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:**

**Ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad (Rhowch gylch fel bo'n briodol)**

Claf Aelod o'r cyhoedd Staff GIG

Sefydliad gwirfoddol / cymunedol Nodwch pa un.....

Sefydliad arall Nodwch pa un.....

Arall, nodwch .....

**Rhyw (Rhowch gylch fel bo'n briodol)**

Gwryw Benyw

**Oed (Rhowch gylch fel bo'n briodol)**

O dan 15 15-24 25-44 45-64 65-74 75-84 85+

**Pa grŵp ethnig ydych chi'n perthyn iddo? (Rhowch gylch fel bo'n briodol)**

Gwyn Chineaidd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

Pwylaidd Du neu Ddu Prydeinig Cymysg

Grŵp Ethnig arall Byddai'n well gennyf beidio â dweud

Arall, nodwch .....

Beth yw eich cod post? .....

**FREEPOST RRZR-SZAA-BUBZ,**
**Reconfiguration of Hospital Services,**
**Oak Lodge, William Farr House,**
**Shropshire County NHS PCT, Mytton Oak Road,**
**Shrewsbury SY3 8XL**